Ysgolion arbennig a gynhelir

Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo ysgolion arbennig a gynhelir i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ystyried newidiadau i'r cwricwlwm:

- Pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau rydych yn eu cynllunio i ddatblygu disgyblion fel:
  - dysgwyr uchelgeisiol, galluog?
  - cyfranwyr mentrus, creadigol?
  - dinasyddion egwyddorol, gwybodus?
  - unigolion iach, hyderus?
- Pa mor dda ydych chi'n cynllunio ar gyfer dilyniant i ddysgwyr fel bod eich cwricwlwm yn datblygu medrau disgyblion yn systematig?
- I ba raddau y mae datblygiad eich cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan rwydweithiau o arfer proffesiynol?
- I ba raddau ydych chi'n ymgysylltu'n weithredol â rhannu profiadau sy'n gwella eich dealltwriaeth o ddulliau sy'n cael eu datblygu mewn ysgolion neu leoliadau eraill?
- A oes gweledigaeth glir yn ymwneud â pha mor dda mae'ch cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion nawr ac yn y dyfodol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod eich cwricwlwm yn gynhwysol ac yn hyrwyddo mynediad teg i brofiadau i bob disgybl, gan gynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd?
- I ba raddau y mae eich partneriaid, gan gynnwys rhieni a disgyblion, wedi cyfrannu at eich gweledigaeth, dylunio, gweithredu a gwerthuso eich cwricwlwm?
- Sut byddwch yn gwybod a fu eich dulliau newydd yn llwyddiannus?